GAWN NI … ?

(dychmygu canolfan newydd Pontio)

Gawn ni oriel i ddangos gwaith celf Ysgol Tryfan,
y Band Jas a'r Côr ar ganol y llwyfan;

sioeau Bara Caws, dramâu a ffilmiau,
jôcs Tudur Owen, Brwydr y Bandiau;

stafelloedd ymarfer, safleoedd perfformio,
soffas i ddiogi, cilfannau ymlacio;

hufen ia moethus Môn ar Lwy,
cig oen Cymreig ac arno flas mwy,

tapas ecsotig, cynnyrch ffermwyr lleol,
cyngherddau rhyngwladol, nosweithiau cartrefol;

actorion hyderus a dawnswyr heini,
encil i sgrifennu, cwtsh cynganeddu;

sŵn piano, corn, ffliwt a thannau telynau,
rhythmau gitâr a churiadau drymiau;

hwylfan i'r bychain gael cropian cyn cerdded,
siopau a llyfrgell, cyfrifiaduron a phaned;

gerddi a chadeiriau, blodau a balconi
i oedi dros ginio – lle da i gymdeithasu;

ac ar do'r ganolfan, gorsaf lanio,
lle i hofrennydd o bell gael parcio,

cludo Jessie J a Beckham i'n hysgogi,
cario rhai yno i'n hannog a'n hysbrydoli;

coffi o Costa, Big Mac a swshi,
a phlîs, plîs, Elen ap – gawn ni jacwsi,

gawn ni neuadd lawn cynhesrwydd, Cymreictod a chroeso,
i'n gwneud ni yn falch o gael perthyn iddo?

GAWN NI HYN I GYD YM MANGOR – AI?

Cerdd a grëwyd fel rhan o brosiect Pontio, HaDAsyniaDA gan ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 Ysgol Tryfan, Bangor gyda chymorth Gerwyn Wiliams a chefnogaeth Llenyddiaeth Cymru, 11 Gorffennaf 2012